# Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) – Diweddariad CBLl

Dyddiad cyfarfod CBLl: Dydd Mercher 15  Gorffennaf 2026

Lleoliad: Cyfarfod rhithiol

Cadeirydd: Cynghorydd Elin Hywel, Gwynedd

Is- Gadeirydd: Cynghorydd Jayne Smith, RCT

| Eitem agenda | Manylion |
|---|---|
| Cadeirydd/ Is Gadeirydd | Cafodd y Cynghorwyr Elin Hywel a Jayne Smith eu apwyntio yn gadeirydd a is gadeirydd ar gyfer 2026/27 |
| Ffurflen Flynyddol 2025/26 | Cyflwynodd Chris Moore o'r Awdurdod Lletya a Jason Blewitt o Archwilio Cymru Ffurflen Flynyddol a llythyr Archwilio 2025/26. Mae'r archwiliad bellach wedi'i gwblhau ac ni chodwyd unrhyw faterion. |
| Diweddariad Awdurdod Lletya | Rhoddodd Chris Moore o'r Awdurdod Lletya ddiweddariad mewn perthynas â'r gwaith sydd wedi'i gwblhau ers cyfarfod diwethaf y CBLl a chyflwynodd ddiweddariad Cynllun Busnes 2025/26 ar 31 Mawrth 2026 (ynghlwm).<br><br>Nododd Chris fod y llythyr '*Minded to Approve'* wedi'i dderbyn gan yr FCA.<br><br>Rhoddodd Rachel Barrack o Hymans Robertson ddiweddariad mewn perthynas â Buddsoddi Cyfrifol, gan gyflwyno diweddariad cynnydd blynyddol Buddsoddi Cyfrifol ac adroddiad natur. |
| Polisi Risg a Adolygu Cofrestr Risg | Mae'r OWG yn gyfrifol am gynnal Polisi Risg a Chofrestr Risg WPP ac adrodd yn ôl ar unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLl bob chwarter. Mae gan yr OWG Is-grŵp Risg pwrpasol i gymryd perchnogaeth o'r dogfennau hyn a'r adolygiadau chwarterol o'r Gofrestr Risg.<br><br>Yn ystod Ch2 2026, mae'r gofrestr risg a'r polisi risg wedi'u hadolygu a'u diweddaru yn unol â sefydlu WPP IM Co. |

| | |
|---|---|
| | Nodwyd y bydd y WPP IM Co yn cynnal ei fframwaith rheoli risg mewnol a'i gofrestr risg ei hun.<br><br>Cymeradwyodd CBLl y polisi risg a'r gofrestr risg wedi'i ddiweddaru, mae'r ddwy ddogfen wedi'u diweddaru ar wefan PPC. |
| Diweddariad Gweithredwr | Cyflwynodd Waystone eu hadroddiad chwarterol ar 31 Mawrth 2026 (ynghlwm). Mae hyn yn darparu diweddariad ar is-gronfeydd PPC a gweithgaredd corfforaethol ac ymgysylltu. |
| Adroddiadau Perfformiad ar 31 Mawrth 2026 | Cyflwynodd Russell Investments bapur cryno perfformiad Ch1 2026 (ynghlwm) yn crynhoi perfformiad pob is-gronfa ACS unigol ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026. |
| Diweddariad WPP IM Co | WPP IM Co yw'r cwmni rheoli buddsoddiadau ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ac fe'i sefydlwyd ym mis Awst 2025, gyda Rob Lamb wedi'i benodi'n Brif Swyddog Gweithredol ym mis Medi 2025.<br><br>Rhoddodd Rob Lamb ddiweddariad ar gynnydd (ynghlwm) yn crynhoi'r hyn y mae'r cwmni wedi'i gyflawni ers mis Medi 2025 mewn perthynas â Llywodraethu, Pobl a Gweithrediadau. |
| **Eitemau sydd wedi'u heithrio** – Trafodwyd yr eitemau canlynol yn ystod rhan preifat y cyfarfod. | |
| Adolygiad Perfformiad Benthyca Stoc 2025/26 | Dechreuodd Benthyca Stoc ym mis Mawrth 2020 a chyflwynodd Northern Trust yr Adolygiad Perfformiad Benthyca Gwarantau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26. |
| Adroddiad Ymgysylltu Robeco – Ch1 2026 | Ym mis Mawrth 2025, ailbenodwyd Robeco fel Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC i ymgymryd â swyddogaethau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ran PPC. Dechreuodd Robeco eu gwasanaeth ymgysylltu ym mis Ebrill 2020, ac maent wedi darparu adroddiad ymgysylltu ar gyfer Chwarter 1 2026. Y thema ymgysylltu a ddewiswyd ar gyfer Ch1 2026 oedd Ymgysylltu Sofran. |

| | |
|---|---|
| Buddsoddi Cyfrifol ac adroddiadau Risg Hinsawdd | Pob chwarter, mae Hymans Robertson yn cynhyrchu Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd chwarterol ar gyfer is-gronfeydd PPC.<br><br>Ar gyfer Chwarter 1 2026 (chwarter sy'n dod i ben 31 Mawrth 2026), cynhyrchwyd yr adroddiadau Twf Byd-eang, Cyfleoedd Byd-eang ac Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy.<br><br>Cyflwynodd Hymans yr adroddiadau i aelodau'r CBLl. |

Dolen gwe-ddarlledu ar gyfer cyfarfod CBLl 15 Gorffennaf 2026 isod:

Agenda for Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru on Dydd Mercher, 15fed Gorffennaf, 2026, 10.00 yb

Cyfeiriad gwefan PPC - Cronfa Pensiwn Cymru | Cartref

Cyfarfod nesaf:

1. Dydd Mawrth 22 Medi 2026 – Cyfarfod hybrid, a gynhelir gan Gaerfyrddin